# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd M R JOHN**

**Ward: Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre**

**Plaid: Annibynnol / Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli St Brides Minor ac Ynysawdre ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 244 o atgyfeiriadau yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych chi wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf fi wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal. |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Ar wahân i gyflwyno atgyfeiriadau gyda BCBC, rwy'n fynychwr rheolaidd y cyfarfodydd PACT misol ar gyfer Cymuned Sarn, yn mynychu digwyddiadau 'Cuppa with a Copper' ac rwy'n mynychu patrolau gydag aelodau o'r heddlu lleol a swyddogion tai o Cymoedd i'r Arfordir.<br><br>Rwy'n delio â llawer o ymholiadau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag e-byst, galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb â phreswylwyr. Rwyf hefyd yn cysylltu â lloches digartrefedd leol i gyfleu unrhyw bryderon a allai fod gan y gymuned leol. Cynhaliais gyfarfodydd ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol Parc Pandy a chynorthwyo mewn grŵp casglu sbwriel misol ar ystâd Tynycoed yn Sarn.<br><br>Rwyf wedi bod yn ymgyrchu gyda thrigolion dros faterion parcio mewn ysgolion lleol, materion diogelwch ar y ffyrdd ar yr A4061 a'r A4065, materion gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cefnogi cynnal a chadw Tir Comin Sarn a Brynmenyn, digartrefedd a phryderon tai yn ogystal â gweithio gyda swyddogion i wella diogelwch a darpariaeth parciau chwarae lleol. |

Yn olaf, rwyf wedi cefnogi preswylwyr i adolygu ceisiadau cynllunio a chefnogi preswylwyr a busnesau lleol gyda'u cynlluniau yn ogystal â llawer mwy.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n Gynghorydd Cymunedol ar Gyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr a Chyngor Cymuned Ynysawdre, Llansanffraid-ar-Ogwr lle mae gen i'r anrhydedd o fod yn Gadeirydd.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Natur ar sawl prosiect i wella mannau gwyrdd yn y gymuned yn ogystal â phrosiectau tebyg a ddelir gan y cyngor cymuned i wella adfywiad mannau cyhoeddus.

Rwyf hefyd wedi bod mewn cysylltiad â Barratt Homes ar sawl mater o fewn ystâd Tyn yr Coed tra bod yr ardal yn aros i gael ei mabwysiadu gan yr awdurdod.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n llywodraethwr AALl ar gyfer Ysgol Iau Bryncethin ac wedi mynychu sawl perfformiad a digwyddiad ysgol.

Cefnogais y cyngor cymuned mewn cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi, lle rhoddwyd mynediad am ddim i bobl oedrannus o gartrefi gofal lleol.

Rwyf hefyd wedi cefnogi darparwyr tai cymdeithasol mewn prosiectau adfywio y mae tenantiaid wedi bod yn rhan ohonynt gan gynnwys darparu meinciau a mannau gwyrdd newydd.

**Y Cynghorydd M R JOHN** **Dyddiad: 30/06/2023**